Victor the Vote Counter
LINEAR VO SCRIPT (v12 11-03-11 TL)

1. INTRO

Open to a close up of a calendar. The box for ' 5 Mai' fills the screen. It's ringed in red pen, and 'REFERENDUM' is written inside the calendar space.

Ar ddydd Iau y pumed o Fai 2011, bydd refferendwm ar y system bleidleisio rydych yn ei defnyddio i ethol Aelodau Seneddol i Dŷ'r Cyffredin.

The camera starts to slowly pull back, revealing more dates on the calendar. We see that we're looking at a wall calendar on an office wall.

Mae dwy system bleidleisio i chi ddewis rhyngddynt: y system bresennol ac un wahanol. I egluro'r ddwy, hoffwn gyflwyno Victor.

Pulling fully back, Victor and his office are revealed. He's sat at his desk, lit by a cone of light. It's quite dark behind him.

Victor sy'n gyfrifol am gyfrif pob pleidlais yn ein hetholiadau, ac mae hynny'n golygu ei fod yn dipyn o arbenigwr yn y maes.

Wyt ti'n barod i egluro Victor?

He nods. As the VO explains the choices, signs illuminate in the darkness behind his desk.

Gwych.
Felly, mae dwy system i ddewis rhyngddynt: 'Y cyntaf i'r felin' a 'Pleidlais amgen'.

Beth am ddechrau arni?

<u>Approx 40 secs</u>

2a. FPTP

Victor stands up and walks left. We're now in a new part of the room. The words 'First past the post' are against the wall, and a huge heap of papers sits in a mound on the floor. Victor expertly dives in, headfirst.

System 'y cyntaf i'r felin' yw'r system rydyn ni'n ei defnyddio ar hyn o bryd yn etholiadau cyffredinol y Deyrnas Unedig; dyma sut mae'n gweithio.

Victor emerges clutching a vote slip. We cut to see it full screen. There is a list of candidates, A through D. Candidate B is marked with a cross.

Gyda system 'y cyntaf i'r felin', rydych yn pleidleisio am un ymgeisydd. Rydych yn gwneud hyn drwy roi croes ym mlwch yr unigolyn rydych am bleidleisio amdano.

We cut back to the room. Victor is busily counting votes from the pile, his tongue poked out in concentration.

Yna rhoddir y pleidleisiau ar gyfer pob ymgeisydd mewn pentwr a'u cyfrif.

We flash forward. The votes are now all counted in four tall piles against the wall. Candidate A's pile is tallest.

Ar ôl gorffen cyfrif, mae'r ymgeisydd â'r nifer fwyaf o bleidleisiau yn ennill.

Victor extends a tape measure and verifies Candidate A, nodding.

Does dim angen i ymgeisydd gael nifer ofynnol o bleidleisiau - dim ond mwy o bleidleisiau nag unrhyw ymgeisydd arall sydd ei angen arno i ennill.

He pins a rosette on candidate A's pile, and walks right.

Diolch Victor!

<u>Approx 55secs (total 1min 35secs)</u>

2b. AV

We're now in a new part of the room. Victor enters from the left. The words 'Alternative Vote' are marked on the wall, and a heap of votes swing from the ceiling in a cargo net.

Mae'r system 'Pleidlais amgen' yn wahanol i'r ffordd rydyn ni'n pleidleisio yn etholiadau cyffredinol y DU ar hyn o bryd; dyma sut mae'n gweithio.

Victor releases the votes on to the floor, accidentally burying himself. He pops up, clutching a slip, and we cut to see it full screen. Again we see a list of candidates, A through D, but they are now marked with numbers. B is 1, A is 2, C is 3 and D is 4.

Yn y system hon, rydych chi'n defnyddio rhifau i restru'ch hoff ymgeiswyr. Rydych chi'n rhoi rhif un ger eich dewis cyntaf, rhif dau ger eich ail ddewis, rhif tri ger eich trydydd dewis ac yn y blaen.

Gallwch ddewis sawl ymgeisydd i'w restru. Does dim rhaid i chi restru pob ymgeisydd. Cyn belled ag eich bod yn dewis o leiaf un, caiff eich pleidlais ei chyfrif.

We cut back to the room. Victor is busily counting the vote slips around him into tidy piles.

Yna rhoddir y pleidleisiau rhif un ar gyfer pob ymgeisydd mewn pentwr a'u cyfrif. I ffwrdd â ti Victor!

Flash forward. All of the votes are now counted into four tall piles against the wall. Candidates A & B are joint tallest.

Ar ôl gorffen cyfrif, os oes ymgeisydd wedi cael mwy na hanner y pleidleisiau rhif un, yr ymgeisydd hwnnw sy'n ennill a does dim angen cyfrif y gweddill.

A dashed line draws across the wall. It is labeled 'Hanner y pleidleisiau rhif un', and sits well above all of the piles.

Ond, os nad oes unrhyw ymgeisydd wedi cael mwy na hanner y pleidleisiau rhif un, mae'n golygu y bydd o leiaf un rownd arall o gyfrif. Felly, am nad oes gan unrhyw un ddigon o bleidleisiau, gall Victor ddechrau ar yr ail rownd.

Victor walks over and attempts to lift the smallest pile of votes – candidate D.

Ar yr adeg hon, caiff yr ymgeisydd â'r nifer leiaf o bleidleisiau rhif un ei dynnu o'r gystadleuaeth - yn yr achos hwn, Ymgeisydd Ch.

With a good heave, he lifts the whole pile and puts it down at the edge of the screen.

Yna edrychir ar bob papur pleidleisio ym mhentwr Ymgeisydd Ch eto.

Two ballot papers slide in front of the screen, one in each of Victor's hands. The number 1 vote on both (both for candidate D) is crossed out. One has a number 2 (B) and number 3 vote (A) on it. The other has no other votes.

Os bydd y papur pleidleisio yn dangos pleidlais rhif dau ar gyfer ymgeisydd arall, caiff ei ychwanegu at bentwr yr ymgeisydd hwnnw. Er enghraifft, mae'r papur pleidleisio hwn yn dangos pleidlais rhif un ar gyfer Ymgeisydd Ch, a phleidlais rhif dau ar gyfer Ymgeisydd B, felly caiff ei symud i bentwr Ymgeisydd B.

The number 2 vote for Candidate B is circled.

Os nad yw papur pleidleisio yn dangos pleidlais rhif dau, ni chaiff ei ddefnyddio mwyach.

The paper with no more votes on it is striked through. Victor's hand then lowers the removed ballot paper from the frame.

We then fade back to the room. Candidate D's pile is slightly smaller to indicate removed votes, though we don't draw attention to it. Victor jumps into fast-forward, Candidate D's pile shrinks and the three remaining piles grow as Victor zips between them in a blur. As each pile grows, a coloured section appears on top of the existing votes, showing where the moved votes have ended up.

The line on the wall now reads 'Hanner y pleidleisiau sy'n weddill'.

The fast forward stops as Victor is reaching up on his tip-toes to add the last of the redistributed votes to candidate A's pile. A & B are no longer the same height, and A now has a small lead.

Os oes ymgeisydd wedi cael mwy na hanner y pleidleisiau sy'n weddill, yr ymgeisydd hwnnw sydd wedi ennill ac ni chaiff y gweddill eu cyfrif.

Ond yn yr achos hwn, does dal ddim unrhyw ymgeisydd sydd â mwy na hanner y pleidleisiau sy'n weddill, felly mae angen rownd arall o gyfrif.

I ffwrdd â ti Victor!

Once more, Victor goes to lift the smallest pile (Candidate C).

Unwaith eto, caiff yr ymgeisydd â'r nifer leiaf o bleidleisiau ei dynnu o'r gystadleuaeth. Ymgeisydd C y tro hwn.

As this pile is taller than the last one he lifted, his knees knock and he strains to lift it. Puffing and panting with wobbly legs, he carries it to the edge of the screen and puts it down.

Edrychir ar bob papur pleidleisio ym mhentwr C eto i weld a oes unrhyw un o'r ymgeiswyr sy'n weddill wedi'u rhestru.

Like before, two ballot papers slide in front of the screen, one in each of Victor's hands. Both have their number 1 and number 2 votes crossed out (C&D). On the left, the ballot paper is ranked D, C, B, then A. On the right, the paper is ranked C, A then D.

Os felly, symudir y papur pleidleisio i bentwr yr ymgeisydd sydd â'r radd uchaf ar y papur pleidleisio.

On the left, the number 3 vote for Candidate B is circled. On the right, the number 2 vote for Candidate A is circled.

I Os nad oes unrhyw un o'r ymgeiswyr sy'n weddill wedi'u rhestru, ni chaiff y papur pleidleisio ei ddefnyddio mwyach.

We then fade back to the room again. . Victor jumps into fast-forward again. Candidate C's pile shrinks and the two remaining piles grow as Victor zips between them in a blur. As each pile grows, another coloured section appears on top of the existing votes, showing where the moved votes have ended up.

The fast-forward stops and Victor is now on a ladder, reaching to put the last of the redistributed votes on top of the Candidate A's pile. It has broken the line on the wall.

Mae gennym enillydd! Mae gan Ymgeisydd A bellach dros hanner y pleidleisiau sy'n weddill.

Victor pins a rosette on Candidate A's pile.

Wrth gwrs, dim ond un enghraifft yw hon. Os oes mwy o ymgeiswyr, gellir ailadrodd y broses hon nes bod gan un ymgeisydd dros hanner y pleidleisiau sy'n weddill.

He slides down his ladder like a pro, and walks off screen to the left.

Diolch Victor!

Back behind his desk, Victor nods. The two signs are illuminated behind him.

<u>Approx 2min 40secs (total: 4min 15secs)</u>

3. END

Cropping in closer to Victor behind his desk, we can no longer see the signs in the background. He wipes his brow and 'phews'.

Felly, nawr ein bod wedi egluro'r system bleidleisio, beth fydd yn digwydd pan ewch i bleidleisio ar y pumed o Fai?

Victor produces the referendum ballot paper from his desk, and holds it forward so it fills the screen. The ''Ie' and 'Na' boxes are clearly visible.

Byddwch yn cael papur pleidleisio gyda'r cwestiwn hwn:

"Ar hyn o bryd, mae'r DU yn defnyddio system 'y cyntaf i'r felin' i ethol ASau i Dŷ'r Cyffredin. A ddylid defnyddio'r system 'pleidlais amgen' yn lle hynny?"

Pleidleisiwch 'ie' os credwch y dylid defnyddio'r bleidlais amgen. Pleidleisiwch 'na' os credwch y dylid defnyddio system y cyntaf i'r felin.

Victor removes the ballot paper and puts it back in his desk, smiling.

Dyna ni! Diolch am dy help Victor.

Cutting back to the wide view, the signs have been replaced with the words 'fymhleidlaisi.co.uk'

I gael rhagor o wybodaeth am bleidleisio, ewch i fymhleidlaisi.co.uk. Diolch am wylio.

The slot spotlight clicks off, leaving the words 'fymhleidlaisi' visible on a black screen, as 'Gorsaf Bleidleisio ar agor 7am-10pm' fades in beneath.

Victor's eyes are left blinking in the darkness - he 'humphs', and we hear his footsteps as he walks out of frame.

<u>Approx 35secs (total: 4mins 50secs)</u>